# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 04/11/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gofal i'r Rheini sy'n Byw gyda Hepatitis

**C11 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella'r gofal a gaiff y rheini sy'n byw gyda hepatitis yng Nghymru? OAQ(3)1246(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cyhoeddwyd cynllun gweithredu i wella diagnosis, triniaeth a gofal dioddefwyr hepatitis at ddibenion ymgynghori ym mis Ebrill. Byddaf yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad maes o law. Caiff yr arian ar gyfer gweithredu'r cynllun ynghyd â blaenoriaethau eraill eu hystyried ochr yn ochr â chynlluniau cyllidebu manwl dros y blynyddoedd ariannol nesaf.

### Gwelyau Niwrolegol

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr oedi wrth geisio cael gafael ar welyau niwrolegol? OAQ(3)1287(HSS)

**Edwina Hart:** Y targed i'w gyrraedd erbyn mis Rhagfyr 2009 yw na ddylai unrhyw glaf ddisgwyl yn hwy na 26 o wythnosau ar ôl cael ei gyfeirio o uned gofal sylfaenol cyn dechrau ar driniaeth derfynol. Mae'r targed hwn yn berthnasol i bob arbenigrwydd gan gynnwys niwroleg a niwrolawdriniaeth.

### Gwasanaethau Strôc

**C13 Chris Franks:** Pa drafodaethau diweddar mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch gwasanaethau strôc? OAQ(3)1285(HSS)

**Edwina Hart:** Mae gwella gwasanaethau strôc ymhlith fy mlaenoriaethau pennaf a byddaf yn parhau i gael llawer o drafodaethau â chleifion, y GIG, y sector gwirfoddol, ACau a swyddogion.

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**C14 Eleanor Burnham:** Pa fesurau ymarferol newydd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cynnig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ(3)1272(HSS)

**Edwina Hart:** Yn y byrddau iechyd lleol newydd, mae gan iechyd meddwl flaenoriaeth uchel ac mae arian wedi'i ddiogelu ar gyfer y maes hwnnw. Yn ogystal, mae ystod eang o fentrau

newydd wedi cael, neu ar fin cael eu cyflwyno gan gynnwys gwasanaethau cymunedol newydd ar gyfer anhwylderau bwyta, camau ynghylch demensia, cymhwysedd deddfwriaethol a threfniadau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio gofal.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1278(HSS), yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Ailbrisio Ardrethi

**C3 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch yr effaith a gaiff ailbrisio ardrethi busnes ar fusnesau yng Nghymru. OAQ(3)1230(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau ynghylch hyn gyda Llywodraeth y DU. Cynhelir yr ailwerthuso ar wahân yng Nghymru a Lloegr, a hynny mewn modd annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

*Atebwyd cwestiynau 4,5,6,7,8,9 a 10 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

### Patrolau Swyddogion Traffig Ffyrdd

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am batrolau'r swyddogion traffig ffyrdd newydd ar hyd yr A55? OAQ(3)1237(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Dechreuodd y gwaith treialu ar yr A55 ar 28 Medi a hyd yn hyn mae'r swyddogion wedi ymdrin â rhyw bedwar achos y diwrnod. Yr wyf yn falch o ddweud mai cadarnhaol iawn fu ymateb y cyhoedd.

### Adfywio

**C12 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo rhannu arfer gorau ym maes adfywio? OAQ(3)1241(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio.***

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Cynhaliwyd ail uwchgynhadledd Cymru ar adfywio yn Llandudno ar 22 Hydref, yn benodol at ddibenion rhannu'r arferion gorau yn y maes. Bydd canolfan rhagoriaeth adfywio Cymru yn cael ei sefydlu i wasanaethu Cymru gyfan.

### Diogelwch ar y Ffyrdd

**C13 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(3)1245(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd targedau heriol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer lleihau anafiadau oherwydd damweiniau. Dros y degawd diwethaf, mae llawer o fywydau wedi'u hachub drwy fentrau ym maes addysg, gorfodaeth a pheirianneg. Dangosodd ffigurau 2008 ar gyfer anafiadau oherwydd damweiniau

fod y sefyllfa wedi gwella'n fawr, a bod nifer y marwolaethau wedi lleihau 12 y cant.

**Adfywio Canol Trefi**

**C14 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi adfywio canol trefi yng Nghymru? OAQ(3)1243(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio.***

**Leighton Andrews:** Cafodd cronfa adfywio Cymru ei lansio yn ystod yr uwchgynhadledd adfywio ar 22 Hydref. Mae'r gronfa wedi'i hanelu at drefi a dinasoedd lle mae'r angen o ran adfywio ar ei uchaf. Bydd yr adnodd ar gael i Gymru gyfan. Yr ydym yn galw am gynigion prosiect i fanteisio ar y gronfa.

**Swyddi sy'n Cael eu Colli**

**C15 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gyfyngu nifer y swyddi sy'n cael eu colli yng Nghymru? OAQ(3)1197(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn darparu polisïau sydd wedi eu llunio yng Nghymru i gefnogi busnesau hyfyw, gwella sgiliau ar gyfer swyddi a chreu cyflogaeth o ansawdd uchel ledled Cymru. Yn ystod yr uwchgynhadledd ddiwethaf, cafwyd trafodaethau buddiol gyda banciau'r stryd fawr ar sut y gallai busnesau gael cyllid. Byddwn yn adeiladu ar y rhain yn yr uwchgynhadledd nesaf.